14. Pwll Llydan

Cilibion, Gŵyr, Abetawe

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 164 yr A.O. Gŵyr; Canolfan y Safle; SS510910.
Statws	Mae'r warchodfa'n rhan fechan o SoDdGA Cefn Bryn a Phwll Llydan sydd, yn ei dro, yn rhan o safle Natura 2000 Ewropeaidd, Comin Gŵyr. Mae'n dir comin cofrestredig ac mae wedi'i ddatgan yn dir mynediad agored.
Daliadaeth	Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth Bwll Llydan yn rhodd fis Mai 1962 gan Ddug Beaufort, fel gwarchodfa natur gyntaf Ymddiriedolaeth Morgannwg.
Maint	Pwll asidig 1.71 he (4.2 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	Wedi'i leoli 3 km i'r gogledd-ddwyrain o Reynoldston, mae'r pwll i'w weld o'r ffordd rhwng Cilibion a Reynoldston, ar yr ochr ogleddol. Ceir mynediad i'r safle o ffordd ogleddol Gŵyr (B4271), drwy droi i'r dde yng Nghilibion, neu o ffordd ddeheuol Gŵyr (A4118), drwy Reynoldston. Mae'r gofod parcio wedi'i gyfyngu i ymylon ffyrdd.
Cludiant cyhoeddus	Gwasanaethau bws 115 a 118 o Orsaf Quadrant Abertawe i Gilibion, ac yna croesi ar draws y comin.

Description: Mae Pwll Llydan yn bwll mawr o ddŵr croyw sydd i'w weld mewn basn bas ar y llwyfandir calchfaen islaw Cefn Bryn. Mae'n un o nodweddion amlycaf ac enwocaf canol y Gŵyr. Rydym yn gwybod bod y Pwll mewn bodolaeth yn 1645. Mae'n ymddangos bod ei darddiad yn naturiol ond eto ceir tystiolaeth bod y pwll wedi cael ei addasu drwy dynnu gwaddod a llystyfiant ohono o ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Er gwaetha'r ffaith ei fod yn fas iawn, dim ond teirgwaith yn y cant a phedwar ugain o flynyddoedd diwethaf y mae Pwll Mawr wedi'i gofnodi wedi sychu, a hynny yn 1897, 1920 ac 1984.

Mae'r Pwll yn cynnwys casgliad cyfoethog o blanhigion dŵr, yn cynnwys Dyfrforon Lleiaf (6-8) a Myrdd-ddail Eilflodeuog (5-8), dau blanhigyn anghyffredin yn Ne Cymru. Mae Ffeuen Eddïog y Gors (6-9) yn bresennol ac mae wedi rheoli'r llystyfiant dyfrol yn y gorffennol. Dim ond mewn ardal fechan o Dde Ddwyrain Lloegr mae'r planhigyn atyniadol ac anghyffredin hwn yn frodorol ac fe'i cyflwynwyd i Bwll Llydan tua 1952.

Mae amrywiaeth eang o adar dŵr ac adar tir gwlyb yn ymweld â'r pwll, yn cynnwys y Crëyr, y Gïach Gyffredin a'r Wyach Fach, ac mae adar mudol sy'n mynd heibio, fel y Pibydd Torchog a'r Pibydd Coesgoch Mannog, i'w gweld yma hefyd. Mae'n safle magu pwysig yn lleol ar gyfer amffibiaid ac mae'n gartref i infertebratau dyfrol amrywiol, yn cynnwys Pryf Pric y Dŵr a Sgorpion y Dŵr, a phedwar rhywogaeth ar ddeg o weision y neidr, yn cynnwys y Fursen Asur (7-8) a'r Gwas Neidr Eurdorchog (6-8). Gan fod hawliau pori ar y comin, gwelir gwartheg a merlod yn yfed dwr y Pwll yn aml iawn.

Nodau Rheoli: Cynnal y safle o ddŵr agored a rheoli ffeuen eddïog y gors. Mae ymlediad ffeuen eddïog y gors yn ystod y 1960'au, ac ymlediad dilynol y brwyn a'r migwyn, wedi bygwth newid y cynefin o ddŵr agored i gors. Yn ystod sychdwr 1984 roedd modd cael gwared ar y llifwaddod ac adfer y pwll i'w gyflwr gwreiddiol. Mae'r erydiad ar hyd ymyl y pwll yn cael ei fonitro hefyd.

broad pool 1 6/7/06, 10:30 am



Amseroedd da i ymweld	
Ebrill - Awst	Blodau'r dŵr a'r pryfed, yn cynnwys gweision y neidr
Medi – Ebrill	Adar mudol yn mynd heibio ac adar ysglyfaethus yn gaeafu

broad pool 2 6/7/06, 10:30 am